



Prif Swyddog Cynllunio
Neath Port Talbot CBC
Civic Centre
Port Talbot
SA13 1PJ

30/07/19

Cyfnod ymgynghori 90 diwrnod yn dod i ben: 28/10/19

Annwyl Brif Swyddog Cynllunio

Yn dilyn ein llythyr blaenorol, rydym yn ysgrifennu atoch fel rhan o broses ymgynghori ffurfiol yn gysylltiedig â'n rhaglen i ddileu rhai ffonau talu cyhoeddus. Mae'r llythyr hwn yn cynrychioli dechrau ffurfiol ymgynghoriad gyda chi a'r gymuned leol.

Ar hyn o bryd mae 30 ffôn talu cyhoeddus yn eich ardal a glustnodwyd i'w dileu gan BT o dan y broses ymgynghori 90 diwrnod a rhestrir y ffonau hynny isod.

Er mwyn hysbysu'r gymuned leol, rydym wedi gosod hysbysiadau ymgynghori ar y ffonau talu perthnasol ac amgaewyd enghraifft o'r hysbysiad. Yn ogystal, rydym wedi cynnwys dyddiad gosod yr hysbysiadau hyn ar y ffonau talu. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 28/10/19. Oni fyddwch yn cysylltu â ni i gytuno fel arall, ni fyddwn yn ystyried unrhyw ymateb a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Mae'r broses ymgynghori'n rhoi cyfle i gymunedau lleol fabwysiadu caban ffôn coch traddodiadol er creu ased bydd pobl leol yn gallu mwynhau. Mae'r broses syml yn costio £1 yn unig - <http://bt.com/adopt>

Yn gyffredinol mae defnydd o ffonau talu wedi gostwng dros 90% dros y degawd diwethaf a'r angen i ddarparu ffonau talu ar gyfer achosion argyfwng yn gostwng gydol yr amser, gydag o leiaf 98% o'r Deyrnas Unedig yn derbyn signal symudol 3G neu 4G. Mae hynny'n bwysig oherwydd, cyn belled bod gwasanaeth rhwydwaith ar gael, mae modd galw'r gwasanaethau brys hyd yn oed pan na fydd credyd ar eich ffôn neu wasanaeth gan eich cwmni symudol chi.

Efallai byddwch hefyd am ystyried adroddiad diweddar Ofcom a ddatgelodd nad yw'r rhan helaeth o bobl yn ystyried ffonau talu'n hanfodol ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn y mwyafrif o amgylchiadau - http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/research/affordability/affordability_report.pdf

Ar 14 Mawrth 2006 cyhoeddodd Ofcom (Office of Communications) ddatganiad yn dilyn adolygiad 2005 o'r gwasanaeth cyffredinol ar y farchnad delathrebu, sy'n cynnwys gofyniad i ddarparu ffonau talu er diwallu

anghenion rhesymol. Roedd rhan o'r datganiad hwnnw wedi addasu ein dyletswyddau ni o ran dileu gwasanaeth ffôn talu - https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/34266/statement.pdf

Yn ôl adolygiad Ofcom 2005, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cynnal proses ymgynghori ei hun er mwyn cael barn y gymuned leol. Fel arfer, byddai disgwyl i'r ymgynghoriadau hyn gynnwys cyrff cyhoeddus eraill fel cynghorau plwyf neu gymuned ac i weithio o fewn amodau Deddf Gyfathrebu 2003. Mae hynny'n golygu bod rhaid i chi ddarparu cyfiawnhad gwrthrychol o'ch penderfyniadau.

Manylion llawn y broses yn:

<http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/uso/statement/removals.pdf>

Crynodeb yn:

http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/uso/statement/removing_callboxes.pdf

Mae'r cyfarwyddyd hefyd yn manylu'r broses apeliadau y mae'n rhaid i ni ddilyn yn achos gwrthwynebiadau afresymol.

Eich camau nesaf

Llenwch a dychwelwch yr atodiad dilynol gyda'ch penderfyniad am bob ffôn talu.

Yn achos penderfyniad bod y gymuned leol yn dymuno 'mabwysiadu', darparwch eu manylion cyswllt ac fe wnawn ni'r gweddill.

Os byddwch yn 'gwrthwynebu', bydd angen nodi'r rhesymau yn y golofn olaf ar ôl adolygu'r holl ffactorau a nodir yn Atodiad 1 o gyfarwyddyd Ofcom (linc uchod) a'r wybodaeth yn ein llythyr blaenorol.

Os byddwch yn darparu gwybodaeth annigonol ar gyfer unrhyw ffôn talu ar y rhestr, byddwn yn cymryd nad ydych yn gwrthwynebu ei ddileu ac nid am ei fabwysiadu.

Y ffordd orau o ymateb yw anfon ebost at bt.authorisation.team@bt.com. Cofiwch gadw prawf o anfon y neges neu gofynnwch am dderbynneg darllen. Os yn well gennych ymateb drwy'r post, defnyddiwch y cyfeiriad isod gan adael o leiaf dau ddiwrnod iddo gyrraedd:

BT Payphones

4th Floor Monument TE
11 - 13 Great Tower Street
London
EC3R 5AQ

Bydd angen prawf postio gan swyddfa'r post a chofiwch ni fyddwn yn derbyn post sydd angen llofnod.

Os bydd unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch â ni wrth anfon ebost at bt.authorisation.team@bt.com.

Yn gywir

Rick Thompson

Swyddog Cynllunio Ffonau Talu